



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Tegfan

**Tegfan Homes
Stryd Arthur
Rhydaman
SA18 2DR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/07/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Tegfan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	M&D Care Limited
Lleuedd cofrestredig	15
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	14/12/2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Tegfan yn gartref mawr. Darperir y llety mewn fflatiau unigol o fewn adeilad mwy gyda dau fflat ar wahân ar y safle. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar gyrion canol dref Rhydaman. Mae hwn yn wasanaeth da mewn lleoliad da yn y gymuned leol er mwyn gallu cyrraedd cyfleusterau lleol yn hawdd. Mae Tegfan yn adeilad modern sy'n darparu cymorth i bobl ag anghenion ymddygiad cymhleth. Mae gan y bobl gynlluniau personol ac asesiadau risg er mwyn cefnogi eu canlyniadau. Mae systemau ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r bobl i ddiwallu eu canlyniadau a'u dyheadau.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llywodraethu'r lleoliad yn dda. Mae tîm rheoli newydd ar waith sydd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatrys problemau staffio blaenorol. Mae'r unigolion wedi'u hymgysylltu drwy Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol a chymorth gweithredol. Cyflawnir hyn drwy lywodraethiant da, cynlluniau personol da ac asesiadau risg. Gwelsom systemau da ar waith ar gyfer recriwtio staff a hyfforddiant a goruchwyliaeth parhaus i gefnogi a datblygu staff o fewn eu rôl.

Llesiant

Mae gan y gwasanaeth oruchwyliaeth dda a llywodraethiant clir ar waith gyda rheolwr dros dro cryf sydd ar secondiad i wella ansawdd y gwasanaeth ac ymgorffori systemau diogel yn dilyn sawl newid i'r tîm rheoli a'r staff. Mae systemau a phrosesau da ar waith ar gyfer llesiant y staff sy'n gweithio mewn amgylchedd hynod gymhleth.

Mae'r bobl yn hapus, yn heini ac mor iach ag y gallant fod. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *“The staff team are very enthusiastic and passionate about improving the lives of the individuals they support. This is evident in the quality of interaction and engagement that I observe”*. Mae tîm mawr o staff ar waith, caiff staff eu dyrannu i gefnogi'r bobl am gyfnodau o ddwy awr a phedair awr sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth y bobl ac mae'r staff cymorth yn galluogi'r bobl i ddiwallu eu canlyniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r staff a'r amgylchedd.

Mae gan y bobl lais, a gwrandewir arnynt. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau am y pethau sy'n bwysig iddynt er mwyn cefnogi eu llesiant. Dywedodd y bobl wrthym; *“Yes, I like it here”, “I go to the pub for a chat, I meet people and staff come with me”*. A *“I like to watch the cricket”*. Mae cynlluniau gofal personol yn cynnwys gwybodaeth am ddewisiadau'r bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau. Yn ogystal â chynlluniau Cymorth Ymddygiad Personol manwl ac asesiadau risg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael i siarad â'r bobl yn y gwasanaeth ac yn defnyddio holiaduron i gasglu safbwyntiau'r rhanddeiliaid.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Caiff y staff hyfforddiant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y darparwr bolisi diogelu cadarn ar waith sy'n cefnogi hyn.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae fflatiau'r bobl wedi'u personoli ac wedi'u dodrefnu'n addas i ddiwallu anghenion pob unigolyn. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân, yn daclus ac wedi'u haddurno'n syml. Gellid gwneud ymdrech i wneud i'r amgylchedd edrych yn fwy apelgar i'r bobl ac i'r bobl fod yn rhan o'r broses. Caiff gwiriadau diogelwch perthnasol eu cwblhau. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda yn y gwasanaeth.

Caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu cefnogi'n dda. Mae'r bobl yn derbyn gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn bodloni eu hanghenion. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd. Caiff y bobl a'u perthnasau eu cynnwys gymaint â phosibl yn y broses adolygu.

Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau a all ddiwallu anghenion y bobl sy'n cael eu cefnogi ganddo. Dywedodd y rheolwr dros dro wrthym; *"I will say if someone is not compatible, they are not admitted, I have said no on three occasions, and I'm listened to"*. Cefnogir hyn gan bolisi a gweithdrefnau cyn asesu sy'n dangos anghenion a chanlyniadau'r bobl i'r staff. Mae gan y gwasanaeth datganiad o ddiben cynhwysfawr; dogfen sy'n dangos i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r datganiad wedi cael ei ysgrifennu'n dda a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r darparwr wedi creu canllaw dda sy'n llawn gwybodaeth i'r gwasanaethau ac sy'n cynnwys gwybodaeth am delerau ac amodau a'r polisi cwyno.

Caiff y bobl eu cefnogi'n dda ar sail un i un neu ddau i un, gyda'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r gweithwyr gofal yn hyrwyddo annibyniaeth y bobl y maent yn eu cefnogi gydag asesiadau risg sy'n adlewyrchu anghenion y bobl. Gwelsom fod safon y gofal a'r cymorth yn dda a chaiff ei adlewyrchu mewn cynlluniau cymorth ymddygiad personol unigol wedi'u teilwra ac mewn ymatebion gan y staff, y bobl a chyrff allanol y gwnaethom siarad â nhw. Gwelsom y staff y cyfrannu at lesiant y bobl drwy ryngweithio'n gadarnhaol ac yn barchus. Mae'r system electronig a ddefnyddir ar gyfer cynllunio gofal a chadw cofnodion dyddiol yn cael ei hadolygu. Gellid cryfhau'r cofnodion dyddiol drwy gyfeirio at nodau ac amcanion y bobl. Trafodwyd hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr dros dro ac mae hyn eisoes yn rhan o'u prosesau gwella ansawdd. Dywedodd perthynas wrthym; *"He has never been happier and regards Tegfan and the staff as an extension of his family"*.

Mae systemau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Caiff cofnodion meddyginiaeth eu harchwilio ac mae system ddiogel i gefnogi llesiant y bobl. Cwblhawyd y cofnodion meddyginiaeth a welsom yn gywir a chaiff meddyginiaeth ei storio'n briodol mewn cypyrddau dan glo mewn ystafell dan glo. Caiff meddyginiaeth pryd bynnag y bo angen (PRN) ei rhoi yn unol â chanllawiau'r meddyg teulu. Mae hyfforddiant ar waith i'r staff sydd â'r cyfrifoldeb i roi meddyginiaeth a chaiff asesiadau cymhwysedd eu cynnal.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i ddiogelu'r bobl y mae'n eu cefnogi. Gwelsom bolisi a gweithdrefn diogelu da i ddiogelu'r bobl. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl nad oes ganddynt y gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain am agweddau ar eu gofal a chymorth. Mae'r rhain yn eu lle i gadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.

Yr Amgylchedd

Mae'r eiddo yn diwallu anghenion y bobl. Caiff y gwasanaeth ei rannu'n fflatiau bach unigol gyda dau fflat y tu allan i'r prif adeilad, sy'n golygu y darperir gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dyrennir y staff at unigolion penodol i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol a'u tasgau byw bob dydd. Mae'r décor a'r dodrefn yn addas ar gyfer anghenion y bobl o fewn yr ardaloedd cymunedol. Mae'r rheolwr dros dro yn chwilio am ffyrdd arloesol o wneud yr amgylchedd yn fwy apelgar i'r bobl a bydd yn gweithio gyda'r rhai sy'n byw yn y gwasanaeth i gefnogi hyn. Dywedodd y staff wrthym; *"I would give a score of 7 out of 10, something different, on the walls and in one of the rooms, the ceilings are high so sound travels which is not great for people with sound sensitivity"*. Mae fflatiau'r bobl wedi'u dodrefnu'n briodol ac yn cynnwys eitemau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn hoffi'r gwasanaeth a'u fflat.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r gwasanaeth eu cwblhau. Roedd y gwasanaeth wedi'i ddiogelu wrth i ni gyrraedd, cafodd ein manylion adnabod eu gwirio, a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân. Mae gan y darparwr systemau ar waith i liniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r ffeil cynnal a chadw a welsom yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau. Mae cyfleustodau megis nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a gwelsom dystysgrifau cyfredol. Gwelwyd asesiadau risg ar gyfer tymereddau dŵr a legionella ar waith. Caiff deunyddiau sydd â'r posibilrwydd o achosi niwed eu cadw dan glo ac nid oes eitemau diangen yn yr ystafelloedd er mwyn diogelu'r bobl. Gwelsom gofnodion ar gyfer cyfarpar diogelwch tân ac mae system dân bwrpasol ar waith sy'n golygu bod gan y cartref bolisi dim symud ar waith sydd wedi'i gefnogi gan y gwasanaeth tân. Gwnaethom edrych ar weithdrefnau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfrwng ar gyfer y bobl. Mae gweithdrefnau gwagio'r adeilad yn benodol i'r unigolyn. Mae'r bobl yn berchen ar gar a gwelsom fod y staff yn cyflawni gwiriadau cynnal a chadw dyddiol ar y cerbyd er mwyn cefnogi diogelwch a llesiant y bobl.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu a monitro ansawdd da ar waith, er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Ceir tystiolaeth o hyn yn yr adroddiadau cynhwysfawr ar adolygiad o ansawdd y gofal a grëwyd gan yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n amlinellu'r dulliau da a ddefnyddiwyd i gasglu adborth gan y bobl, y staff a gweithwyr proffesiynol, a dadansoddi gwybodaeth o amgylch ymddygiadau. Mae tîm rheoli newydd a rheolwr dros dro ar waith i wella ansawdd y gwasanaeth ac i ymgorffori systemau. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *"The service used to feel chaotic and unorganised, but things have improved with the interim manager in post"*. Mae'r rheolwr yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth dda am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u cyfrifoldebau cytundebol a rheoliadol. Roeddent yn fwy na pharod i fod yn agored drwy gydol yr arolygiad. Caiff yr ymweliadau chwarterol eu cynnal gan yr Unigolyn Cyfrifol mewn modd amserol a chânt eu dogfennu'n dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael i siarad â'r staff a'r bobl pan fo'n bosibl. Rhoddir arweiniad clir i'r rheolwr ar y camau gweithredu sydd angen eu gwneud i ddylanwadu'n gadarnhaol ar welliant.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r broses ddiogelu. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu fel rhan o'u cyfnod sefydlu a chaiff hyn ei gefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau da sydd ar gael i'r staff drwy Ap. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i roi gwybod am faterion diogelu ac i fynd i'r afael â nhw. Dywedodd y staff wrthym; *"Safeguarding is about protecting people, supporting them to be safe from danger"*.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion drwy staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau a'u dyheadau. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda, ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r cynllun hyfforddiant a'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn cefnogi hyn. Caiff sesiynau goruchwylio'r staff eu cynnal yn rheolaidd a chânt eu cefnogi gan sesiynau ôl-drafod yn ôl yr angen gan y staff. Dywedodd y staff wrthym; *"I am very much enjoying my time here, the management work together as a team"*. A *"Everyone is supportive, giving guidance on how to work and giving feedback, giving a good explanation on how to support people"*. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél tri aelod o'r staff a gweld bod yr holl ddogfennau recriwtio ar waith. Mae'r ffeiliau hefyd yn cadarnhau y caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cynnal, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl yn ddiogel i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r rotas yn dangos bod y lefelau staffio wedi gwella a bod y lefelau naill ai ar y lefel ofynnol neu'n uwch. Mae'r darparwr hefyd wedi cynyddu lefel yr hyfforddiant cyn i'r staff gael eu rhoi ar y rota. Dywedodd y rheolwr dros dro wrthym; *"We are doing more staff training, epilepsy buccal trained staff (day and night), PBM, PBS"*. *"We carry out training*

here in the staff area, and in the Carmarthen office". Cadarnhawyd hyn a'r cynllun hyfforddiant gan bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 15/09/2023